

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, Practis
Deintyddol Rosehill**

21 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	16
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rosehill yn Iscraig, Stryd Rosehill, Conwy, LL32 8LD yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 21 Gorffennaf 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rosehill yn darparu gwasanaethau i tua 4,000 o gleifion yng Nghonwy a'r ardal amgylchynol. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a elwir yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Practis cymysg yw Practis Deintyddol Rosehill sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG. Ar adeg ein harolygiad, rhoddwyd gwybod inni y darperir 98% o'r gwasanaethau i gleifion o dan drefniadau'r GIG.

Mae tîm y practis yn cynnwys un prif ddeintydd/perchennog y practis (a ddaeth yn gyfrifol am y busnes yn 1991), un deintydd o dan hyfforddiant yn ymgymryd â hyfforddiant deintyddol sylfaenol, pedwar nyrs deintyddol ac un derbynnnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwiriadau ac archwiliadau arferol
- Llenwadau
- Coronau a phontydd
- Tynnu dannedd
- Gwynnu dannedd

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwio sut mae Practis Deintyddol Rosehill yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Roedd cleifion yn canmol y gwasanaethau a'r wybodaeth a gafwyd am eu triniaeth. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod yn cael croeso gan dîm y practis.

Gwelsom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn amlwg ac nad oedd dim system ffurfiol i gleifion gyflwyno'u barn am y gwasanaeth. Felly, rydym wedi argymhell gwelliannau yn y meysydd hyn.

Gwelsom fod safon proses cadw cofnodion y ddau ddeintydd yn rhagorol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod diffygion difrifol yn y gweithdrefnau dadheintio (glanhau a sterileiddio) a rheoli heintiau. O ganlyniad, aethpwyd ar drywydd hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC. Ers hynny, mae AGIC wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o'r camau amrywiol y mae'r practis wedi'u cymryd, drwy ymgynghori â'r bwrdd iechyd lleol, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhoddodd yr ymateb hwn sicrwydd digonol i AGIC naill ai fod y gwelliannau a nodwyd wedi'u cyflawni a/neu fod y practis yn gwneud cynnydd boddhaol mewn ymateb i'r materion hyn.

Gwnaethom ganfod bod systemau wedi'u datblygu a bod canllawiau wedi'u caffael i gefnogi'r broses o ddarparu triniaethau deintyddol yn ddiogel. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd dim tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod y rhain wedi'u gweithredu neu'n cael eu defnyddio. Felly, rydym wedi argymhell gwelliannau yn yr adran hon o ran archwilio, gweithdrefnau dadebru, storio meddyginiaethau a gwaredu â gwastraff.

Roedd perchennog y practis wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn llawr newydd a chadair ar gyfer triniaethau yn un o'r ystafelloedd triniaeth.

Roedd pob un o'r aelodau staff a welsom yn garedig ac yn ofalgar â ni a'r cleifion. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu am yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth aneffeithiol gyffredinol ym Mhractis Deintyddol Rosehill. Roedd nifer o bolisiau wedi'u dyblygu neu wedi dyddio. Nid oedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintydd wedi'i adnewyddu o fewn tair blynedd, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd tystiolaeth nad oedd staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol.

Mae AGIC yn pryderu am ddigonolrwydd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth yn y practis, o gofio'r nifer o bryderon a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Rydym wedi cynghori y dylai'r trefniadau hyn gael eu hadolygu ar frys er mwyn sicrhau

bod y practis yn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i gleifion sy'n cydfynd â gofynion y rheoliadau a'r safonau proffesiynol.

Lle cyfyngedig oedd ar gael i staff a chyfleusterau storio yn y practis; felly, rydym wedi cynghori y dylid gwaredu ag unrhyw gynhyrchion sydd wedi dyddio/nas dymunir er mwyn sicrhau bod cymaint o le ar gael â phosibl. Mae angen adolygu amserlen lanhau'r practis; dylid sicrhau bod staff yn deall yn glir eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â glanhau ac, yn gyffredinol, dylid gwella safon y glendid.

Dylid ystyried sut y gellid gwella mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn, neu i bobl sydd â symudedd cyfyngedig.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Roedd cleifion yn canmol y gwasanaethau a'r wybodaeth a gafwyd am eu triniaeth. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod yn cael croeso gan dîm y practis.

Gwelsom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn amlwg ac nad oedd dim system ffurfiol i gleifion gyflwyno'u barn am y gwasanaeth. Felly, rydym wedi argymhell gwelliannau yn y meysydd hyn.

Cawsom 15 o holiaduron AGIC wedi'u cwblhau ar ddechrau'r arolygiad. Roedd pob un o'r cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir a dywedasant eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan dîm y practis; ychwanegodd rhai cleifion eu bod yn cael croeso bob amser, neu eu bod yn cael croeso mawr.

Ychwanegodd pedwar o'r cleifion sylwadau canmoladwy, sydd wedi'u cynnwys isod, gyda'u caniatâd:

"Deintyddiaeth ragorol. Rwyf yn blês iawn gyda'm dannedd".

"Drwy'r holl flynyddoedd nid wyf erioed wedi gorfod cwyno. Mae'r deintydd a'r staff bob amser yn barod i helpu".

"Rwyf yn fodlon ar y practis deintyddol. Mae'r tîm yn barod iawn i helpu".

"Mae gennyf bob amser ffydd yn fy neintydd".

Dim ond tri o'r 15 o gleifion a gadarnhaodd eu bod yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Fodd bynnag, ychwanegodd nifer o gleifion y gallent gael gafael ar y wybodaeth hon neu nad oeddent erioed wedi gorfod cwyno. Dywedodd claf arall fod hyn *"oherwydd bod y practis yn dda iawn"*. Nid oedd pum claf yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Pan wnaethom edrych am y wybodaeth uchod ar y safle, nid oedd yn hawdd dod o hyd iddi. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, a oedd ar gael yn nescg y dderbynfa, ond bu'n rhaid dangos inni ble oedd yr hysbysiad am y 'cod ymarfer' ynghylch cwynion, a oedd wedi'i leoli y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Gwelsom fod yr ysgrifen ar yr hysbysiad hwn yn fach ac felly nid oedd yn amlwg. Er y darperir 98% o'r gwasanaethau o

dan drefniadau'r GIG, nid oedd dim gwybodaeth am drefniadau 'Gweithio i Wella' y GIG, sef y fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymdrin â chwynion am wasanaethau'r GIG, ac ymateb i'r cwynion hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos gwybodaeth allweddol, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau a gwybodaeth am y weithdrefn gwyno, mewn lleoliad mwy amlwg yn y practis. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth 'Gweithio i Wella' y GIG.

Nid oedd gan y practis wefan ar y pryd. Cadarnhaodd y staff mai'r Gymraeg oedd iaith gyntaf rhai cleifion. Fodd bynnag, ni ddaethom o hyd i ddim gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gwella'r dulliau cyfathrebu cyffredinol yn y practis, gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau a chan ystyried anghenion cleifion o ran iaith a chyfathrebu.

Cadarnhaodd rhai o'r cleifion eu bod wedi profi oediadau ar ddiwrnod yr apwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethant i gyd nodi mai'n anaml y cafwyd unrhyw oediadau neu eu bod yn para ychydig o funudau yn unig.

Gwnaethom ganfod nad oedd dim system ffurfiol i gleifion gyflwyno'u sylwadau am y practis. Felly, nid oedd dim tystiolaeth i ddangos bod y practis yn gwrando ar sylwadau cleifion, ac yn dysgu ganddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu systemau i asesu a gwerthuso profiad cleifion. Dylid defnyddio adborth gan gleifion i ddylanwadu ar newidiadau cadarnaol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom fod safon proses cadw cofnodion y ddau ddeintydd yn rhagorol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod diffygion difrifol yn y gweithdrefnau dadheintio (glanhau a sterilieiddio) a rheoli heintiau. O ganlyniad, aethpwyd ar drywydd hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC. Ers hynny, mae AGIC wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o'r camau amrywiol y mae'r practis wedi'u cymryd, drwy ymgynghori â'r bwrdd iechyd lleol, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhoddodd yr ymateb hwn sicrwydd digonol i AGIC naill ai fod y gwelliannau a nodwyd wedi'u cyflawni a/neu fod y practis yn gwneud cynnydd boddhaol mewn ymateb i'r materion hyn.

Gwnaethom ganfod bod systemau wedi'u datblygu a bod canllawiau wedi'u caffael i gefnogi'r broses o ddarparu triniaethau deintyddol yn ddiogel. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd dim tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod y rhain wedi'u gweithredu neu'n cael eu defnyddio. Felly, rydym wedi argymhell gwelliannau yn yr adran hon o ran archwilio, gweithdrefnau dadebru, storio meddyginiaethau a gwaredu â gwastraff.

Roedd perchennog y practis wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn llawr newydd a chadair ar gyfer triniaethau yn un o'r ystafelloedd triniaeth.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom nodi pryderon difrifol am y gweithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau. O'n harchwiliad o ddogfennau a thrafodaethau â'r staff, gwnaethom ganfod nad oeddent â syniad clir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd yr ardaloedd a'r prosesau dadheintio lawer islaw canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁴. Gallai'r diffyg glendid yn yr ardaloedd dadheintio fod wedi peri risg ar unwaith i ddiogelwch cleifion. Felly, daethpwyd â'r materion hyn i sylw'r prif ddeintydd cyn gynted ag

⁴ Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw canllaw Cymru ar gyfer dadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol, a bwriedir iddo wella'n gynyddol ansawdd gwaith dadheintio. Mae ar gael yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

y cawsant eu canfod. Cymerodd y staff gamau ar unwaith i ddechrau ymdrin â'n pryderon.

Fodd bynnag, o ystyried y pryderon a nodwyd, rhoddodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella i'r practis, ac ymgynghorodd â chynrychiolwyr perthnasol y bwrdd iechyd lleol, a ddarparodd wedyn y cymorth a'r hyfforddiant i'r staff yr oedd eu hangen arnynt i wella'r prosesau dadheintio a rheoli heintiau. Cafodd AGIC hefyd gadarnhad ysgrifenedig gan y practis a oedd yn nodi manylion y camau yr oedd staff wedi'u cymryd i wella safonau. Darparodd yr ymateb hwn sicrwydd digonol inni naill ai fod y gwelliannau a nodwyd wedi'u cyflawni a/neu fod y practis yn gwneud cynnydd boddhaol mewn ymateb i'r materion hyn.

Roedd tystiolaeth ddogfennol ar gael i ddangos bod offer radiograffig (pelydr-x) yn cael ei drin a'i gynnal yn rheolaidd. Gwelsom dystysgrif hyfforddiant a ddangosodd fod y prif ddeintydd wedi cael hyfforddiant, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

Roedd cynllun gweithredu cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd, dyddiedig 2013, y gwnaethom edrych arno yn argymhell bod 20% o radiograffau'n cael eu harchwilio. Gwelsom fod archwiliad wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2013 ac un ym mis Gorffennaf 2015. Fodd bynnag, nid oedd dim canrannau wedi'u cynnwys i ddangos faint o radiograffau a archwiliwyd. Felly, gwnaethom awgrymu bod y cynllun gweithredu uchod yn cael ei adolygu a bod system reolaidd yn cael ei gweithredu ar gyfer archwilio radiograffau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnal archwiliadau o ddelweddau o ran ansawdd radiograffau yn fwy aml. Yn y cyswllt hwn, byddem yn argymhell bod y practis yn rhoi sylw i 'Lyfr Coginio', neu ganllaw, Deoniaeth Cymru am Archwiliadau Clinigol ac Adolygiadau gan Gymheiriaid, sy'n cynnwys radiograffeg.

Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys copïau o ddogfennau, fel rheolau lleol, a oedd wedi'u diweddarau dros amser. Felly, gwnaethom gynghori'r deintydd i adolygu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffeil hon a chael gwared ar yr holl ddogfennaeth nad yw'n gyfoes.

Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth a'r offer dadebru, cymorth cyntaf/meddyginiaeth frys. Gwelsom fod siartiau llif Cyngor Dadebru y DU ynghylch amryw o sefyllfaoedd brys ar gael. Fodd bynnag, nid oedd dim tystiolaeth o weithdrefnau penodol gan y practis i staff eu dilyn mewn argyfyngau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu ei weithdrefnau dadebru ei hun i staff eu dilyn mewn argyfwng.

Gwelsom fod y staff wedi cael yr hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd diweddaraf. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried gwella'r hyn a ddysgir ymhellach drwy ddefnyddio enghreifftiau ar sail senarios rhwng yr hyfforddiant blynyddol.

Roedd yr holl feddyginiaethau a welsom o fewn y cyfnod cyn y dyddiad dod i ben; roedd rhestr wirio'n cael ei chynnal i wirio'r rhain a chael rhai newydd yn eu lle yn ôl yr angen. Gwelsom fod un o'r meddyginiaethau brys, Glucagon, yn cael ei storio yn yr oergell. Cyfarwyddyd y gwneuthurwr oedd y gallai Glucagon gael ei storio rhwng 2° a 8° neu gael ei chadw y tu allan i oergell. Nid oedd dim thermomedr i wirio tymheredd yr oergell.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu'r dull o storio Glucagon ac, os yw i gael ei storio yn yr oergell, dylid caffael thermomedr a dylid gwirio tymheredd yr oergell a'i gofnodi bob dydd. (Bydd hyn yn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu, os bydd tymheredd yr oergell y tu allan i'r ystod hon, dylid cael meddyginiaeth newydd yn ei lle).

Roedd contractau ar waith ar gyfer storio a gwaredu â gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau y gwaredir â gwastraff yn y daliedydd cod lliw a argymhellir, oherwydd gwnaethom arsylwi fod rhai o'r cetris a oedd wedi'u defnyddio wedi'u gwaredu yn y bin gwastraff clinigol cod lliw anghywir. Gwnaethom ganfod nad oedd dim cyfleusterau gwastraff glanweithiol dynodedig a rhoddwyd gwybod inni y gwaredir â gwastraff glanweithiol yn y bin gwastraff cyffredinol. Nid oedd pob bin gwastraff clinigol yn cael ei weithredu â throed neu synhwrydd, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sy'n helpu i atal croes-heintio drwy gyffwrdd. Roedd rhai o'r biniau a welsom yn edrych fel pe baent wedi'u staenio neu'n fudr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyfleusterau ar gyfer gwaredu â gwastraff gael eu hadolygu i sicrhau bod biniau priodol ar gael a'u bod yn cael eu glanhau'n rheolaidd.

Dylid gwaredu â gwastraff yn y daliedydd priodol, yn unol â'r canllawiau ynghylch rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel (WHTM 07-01).

Gwnaethom edrych ar hapsampl o saith o gofnodion cleifion gan y ddau ddeintydd. Yn gyffredinol, roedd safon y broses cadw cofnodion yn rhagorol, ac roedd tystiolaeth fod y ddau ddeintydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion. Roedd y deintydd a oedd yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaenol ym mhythefnos olaf ei chwrs, a gwnaethom ganfod tystiolaeth o waith blaen-gynllunio rhagorol a fyddai'n sicr yn cynorthwyo'r hyfforddai nesaf a dilyniant gofal cleifion.

Roedd cywasgydd newydd (sy'n cyflenwi'r aer cywasgedig sydd ei angen ar offer deintyddol ym mhob deintyddfa) wedi'i osod ym mis Gorffennaf 2015. Gwelsom fod y llawr yn un o'r ystafelloedd triniaeth mewn cyflwr da, gan iddo gael ei osod o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd cadair newydd ar gyfer triniaethau wedi'i chaffael hefyd ar gyfer un o'r ystafelloedd triniaeth.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd pob un o'r aelodau staff a welsom yn garedig ac yn ofalgar â ni a'r cleifion. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu am yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth aneffeithiol gyffredinol ym Mhractis Deintyddol Rosehill. Roedd nifer o bolisiâu wedi'u dyblygu neu wedi dyddio. Nid oedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintydd wedi'i adnewyddu o fewn tair blynedd, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd tystiolaeth nad oedd staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol.

Mae AGIC yn pryderu am ddigonolrwydd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth yn y practis, o gofio'r nifer o bryderon a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Rydym wedi cynghori y dylai'r trefniadau hyn gael eu hadolygu ar frys er mwyn sicrhau bod y practis yn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i gleifion sy'n cydfynd â gofynion y rheoliadau a'r safonau proffesiynol.

Gwnaethom edrych ar nifer o bolisiâu a gweithdrefnau a gwnaethom ganfod fod nifer o'r rhain wedi'u dyblygu a'u bod hefyd yn anghyson. Nid oedd rhai ohonynt yn cynnwys y fersiwn neu'r dyddiadau adolygu; felly, nid oedd modd canfod y cyhoeddiad diweddaraf. Roedd sawl fersiwn o'r gweithdrefnau cwyno, er enghraifft, a oedd yn cynnwys tair amserlen wahanol ar gyfer cydnabod cwynion, neu ymchwilio iddynt. Roedd y practis wedi lawrlwytho rhai o'r polisiâu gan Gymdeithas Ddeintyddiaeth Prydain. Fodd bynnag, roedd ambell un a welsom wedi cael eu lawrlwytho hyd at ddeng mlynedd yn ôl; nid oedd dim tystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu neu wedi'u diweddarau gan y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnal adolygiad o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfoes. Dylid cael gwared ar fersiynau blaenorol neu nad ydynt yn gyfoes.

Byddem yn argymhell bod y dyddiadau gweithredu a/neu adolygu'n cael eu cynnwys ar bolisiâu. Dylai copïau fod yn hygyrch ac, os oes angen, dylid sicrhau eu bod ar gael i'r staff.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y prif ddeintyddion ddatgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd â dyddiad o fewn y tair blynedd ddiwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r deintydd a ddywedodd ei fod eisoes wedi gofyn am ddatgeliad newydd. Nid yw'n orfodol i staff practisau gael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r deintydd sy'n cyflogi gynnal gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas i'w cyflogi. Gwnaethom ganfod nad oedd

gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer unrhyw un o'r staff eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gwiriadau cyflogaeth cyfnodol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer hon hefyd yn cyd-fynd ag Arweiniad 2011 y GIG ac Iechyd Cyhoeddus ynghylch Gwarchod Plant ac Oedolion Bregus mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol.

Rhaid i wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers iddo gael ei roi, fod ar gael i ddeintyddion sy'n darparu triniaethau deintyddol preifat (yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008).

Gwnaethom edrych ar y ffeil ynghylch cyfarfodydd staff y practis, a oedd yn cynnwys cofnodion dau gyfarfod diweddar (mis Mehefin a Gorffennaf 2015), a dau gyfarfod blaenorol (mis Ebrill 2014 a mis Tachwedd 2013). Rhoddwyd gwybod inni fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn anaml; fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â hwy eu bod wedi gwerthfawrogi'r trafodaethau hyn. Roedd arfarniad diweddar wedi'i ddarparu i staff, ond eto dangosodd ein trafodaeth â staff nad oedd arfarniadau wedi'u cynnal yn rheolaidd yn y gorffennol. Nid oedd dim templed ar gyfer arfarniadau staff, a gwelsom fod gwybodaeth wedi'i hysgrifennu â llaw neu wedi'i theipio ar dudalen blaen a'i bod yn gryno iawn; nid oedd rhai o'r rhain â dyddiad arnynt. Nid oedd modd canfod pa fewnbwn yr oedd aelodau staff wedi'i gael fel rhan o'u harfarniad. Nid oedd y camau gweithredu yn y cynllun datblygu personol yn egluro pwy oedd yn gyfrifol am fynd i'r afael â hwy, ac erbyn pryd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cymryd camau ychwanegol i sicrhau bod aelodau staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, darparu cynlluniau datblygu personol ac arfarniadau staff blynyddol, cyfarfodydd tîm rheolaidd a chyfleoedd i gydweithio.

Roedd allbrint cofrestrïadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i gaffael i ddangos bod gan staff gofrestrïad dilyn. Rhoddwyd gwybod inni fod staff yn cadw'r dystysgrif, ynghyd â'u tystysgrifau datblygiad proffesiynol parhaus, yn eu ffeiliau eu hunain gartref. Fodd bynnag, roeddent wedi dod â'r ffeiliau i'r practis er mwyn i ni eu harolygu, a gwnaethom ganfod amryw o dystysgrifau hyfforddiant ynddynt ynghylch cyrsiau diweddar a chysiau blaenorol. Gwelsom hefyd fod y prif ddeintydd wedi mynd ar gwrs 'Matrics Aeddfedrwydd' yn 2013,

sy'n ddull o ddatblygu practis er mwyn monitro perfformiad mewn practisau deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd dim tystiolaeth fod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio na bod system ar waith i fonitro cynnydd aelodau staff gyda'u hanghenion dysgu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Byddai'n fuddiol pe bai'r practis yn ystyried system ar gyfer monitro cyfleoedd o ran dysgu a hyfforddiant. Dylid cynorthwyo staff i gyflawni eu holl botensial.

Yn unol â'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad arolygu hwn, ac o ystyried nifer yr argymhellion a'r pryderon difrifol a nodwyd yn ystod yr arolygiad, dylid ystyried sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro'r graddau y cydymffurfir â rheoliadau a safonau perthnasol. Y disgwyliad yw y bydd tystiolaeth o welliant nodedig yn hyn o beth pan gynhelir yr arolygiad nesaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried ar frys reolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis, er mwyn sicrhau:

- ***Cyhyd ag y bo modd, y cydymffurfir â rheoliadau a safonau.***
- ***Bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf i hyrwyddo proses gynaliadwy o ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.***

Ansawdd yr Amgylchedd

Lle cyfyngedig oedd ar gael i staff a chyfleusterau storio yn y practis; felly, rydym wedi cynghori y dylid gwaredu ag unrhyw gynhyrchion sydd wedi dyddio/nas dymunir er mwyn sicrhau bod cymaint o le ar gael â phosibl. Mae angen adolygu amserlen lanhau'r practis; dylid sicrhau bod staff yn deall yn glir eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â glanhau ac, yn gyffredinol, dylid gwella safon y glendid.

Dylid ystyried sut y gellid gwella mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn, neu i bobl sydd â symudedd cyfyngedig.

Cafodd Practis Deintyddol Rosehill ei drawsnewid o eiddo preswyl mawr ar ddiwedd y 1960au. Nid oes dim cyfleusterau parcio ceir i gleifion; fodd bynnag, mae meysydd parcio cyhoeddus ar gael gerllaw. Er bod y cyntedd a'r ystafelloedd yn fawr yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod y cyfleusterau i staff wedi'u cyfyngu i ardal gegin fach wrth ochr y dderbynfa, a bod diffyg lle ar gyfer storio. Roedd yr ystafell storio a welsom yn llawn, ac roedd yn cynnwys bocsys o gyflenwadau amrywiol, y rhoddwyd gwybod inni nad oedd angen rhai ohonynt mwyach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd i waredu â chynhyrchion a oedd wedi dyddio ac eitemau nad oedd eu hangen mwyach er mwyn sicrhau bod cymaint o le ag y bo modd ar gyfer storio yn gyffredinol yn y practis.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn datgan bod y practis yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad gwelsom fod un claf yn defnyddio cadair olwyn, a gwnaethom ganfod eu bod wedi ei chael yn anodd ymdrin â'r dramwyfa anwastad a stepen mynedfa ochr y practis. Roedd pedair stepen yn y fynedfa flaen, a oedd yn arwain at y stryd y tu allan; felly, nid oedd y fynedfa hon yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dywedodd y prif ddeintydd fod y dramwyfa yn cael ei rhannu â dau denant arall ac nad oedd ei ymdrechion i osod wyneb newydd ar yr ardal hon wedi llwyddo ar adegau blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried yr hyn y gwnaethom ei arsylwi o ran anawsterau mynediad cyffredinol i gleifion sydd â symudedd cyfyngedig, cytunodd i fynd ar drywydd y mater hwn eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried pa addasiadau rhesymol eraill y gellid eu gwneud i wella'r mynediad i'r safle ar gyfer cadeiriau olwyn.

Er bod y practis wedi lawrlwytho amserlen lanhau fanwl ar gyfer practisau deintyddol, gwnaethom ganfod nad oedd yn cael ei dilyn. Yn ychwanegol at y ddeintyddfa a'r ardaloedd dadheintio, gwnaethom ganfod bod llwch wedi cronni mewn rhai ardaloedd, fel y byrddau sgyrtin. Rhoddwyd gwybod inni fod y gwaith glanhau'n cael ei rannu rhwng y staff a glanhawr. Fodd bynnag, pan wnaethom drafod y drefn lanhau â'r deintydd, gwnaethom ganfod nad oedd sefyllfa glir o ran y strwythur glanhau a phroses o ddirprwyo cyfrifoldebau ymysg staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gweithdrefnau glanhau gael eu hadolygu ar frys a dylid sicrhau bod darlun cliriach o ran cyfrifoldebau aelodau staff. Yn y cyswllt hwn, dylai copi o'r gweithdrefnau a'r rhestrau gwirio ynghylch glanhau fod yn hygyrch neu ar gael i staff.

Dylai pob ardal ar y safle gael ei glanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau. Byddem yn argymhell bod system yn cael ei datblygu i fonitro safon y glendid a'i chynnal.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Rosehill yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Rosehill, Iscraig, Stryd Rosehill, Conwy

Dyddiad yr Arolygiad: 21 Gorffennaf 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
8	<i>Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos gwybodaeth allweddol, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau a gwybodaeth am y weithdrefn gwyno, mewn lleoliad mwy amlwg yn y practis. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth 'Gweithio i Wella' y GIG.</i> [Safon Iechyd a Gofal 3.2]	Mae poster Gweithio i Wella y GIG bellach wedi'i arddangos yn glir yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros. Bydd y manylion cyswllt y tu allan i oriau'n cael eu harddangos yn glir	Donna Evans.	Wedi'i wneud Wedi'i wneud
8	<i>Dylid ystyried gwella'r dulliau cyfathrebu cyffredinol yn y practis, gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau a chan ystyried</i>	Yn defnyddio ffurflen adborth i ganfod dewisiadau cleifion o ran iaith a chyfathrebu	Donna Evans	6 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>anghenion cleifion o ran iaith a chyfathrebu.</i> [Safon Iechyd a Gofal 3.2]			
8	<i>Dylai'r practis ddatblygu systemau i asesu a gwerthuso profiad cleifion. Dylid defnyddio adborth gan gleifion i ddylanwadu ar newidiadau cadarnaol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.</i> [Safon Iechyd a Gofal 6.3]	Defnyddio ffurflen adborth Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.	Donna Evans ar hyn o bryd	O 6/12 oherwydd newid mawr o ran y rheolwyr a'r ymarferwyr
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
10	<i>Dylid cynnal archwiliadau o ddelweddau o ran ansawdd radiograffau yn fwy aml. Yn y cyswllt hwn, byddem yn argymhell bod y practis yn rhoi sylw i 'Lyfr Coginio', neu ganllaw, Deoniaeth Cymru am Archwiliadau Clinigol ac Adolygiadau gan Gymheiriad, sy'n cynnwys radiograffeg.</i> [Safonau Iechyd a Gofal 2.9 a 3.1]	Diweddarau cofnodion ynghylch archwiliadau pelydr-x	Chris Gash	Yn cychwyn ar unwaith
11	<i>Dylai'r practis ddatblygu ei weithdrefnau dadebru ei hun i staff eu dilyn mewn</i>	Datblygu a chofnodi gweithdrefnau dadebru y practis	Chris Gash/Donna Evans	Cyn pen mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>argyfwng.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.6]</p>			
11	<p><i>Adolygu'r dull o storio Glucagon ac, os yw i gael ei storio yn yr oergell, dylid caffael thermomedr a dylid gwirio tymheredd yr oergell a'i gofnodi bob dydd. (Bydd hyn yn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu, os bydd tymheredd yr oergell y tu allan i'r ystod hon, dylid cael meddyginiaeth newydd yn ei lle).</i></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 2.6]</p>	<p>Glucagon wedi'i dynnu o'r oergell at ddibenion storio. Newid dyddiad storio ar yr amserlen ailgyflenwi.</p>	Chris Gash	Wedi'i wneud
11	<p><i>Dylai'r cyfleusterau ar gyfer gwaredu â gwastraff gael eu hadolygu i sicrhau bod biniau priodol ar gael a'u bod yn cael eu glanhau'n rheolaidd.</i></p> <p><i>Dylid gwaredu â gwastraff yn y daliedydd priodol, yn unol â'r canllawiau ynghylch rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel (WHTM 07-01).</i></p>	<p>Yn destun adolygiad. Mae'r system o finiau offer miniog ac offer miniog Pharmi ar wahân wedi'i newid i offer miniog Pharmi yn unig, fel yr argymhellwyd.</p>	Donna evans	Cyn pen 6 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Safon Iechyd a Gofal 2.4]			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
13	<p><i>Dylid cynnal adolygiad o'r holl bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfoes. Dylid cael gwared ar fersiynau blaenorol neu nad ydynt yn gyfoes.</i></p> <p><i>Byddem yn argymhell bod y dyddiadau gweithredu a/neu adolygu'n cael eu cynnwys ar bolisiau. Dylai copïau fod yn hygyrch ac, os oes angen, dylid sicrhau eu bod ar gael i'r staff.</i></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd]</p>	Wedi'i gychwyn	Donna Evans ar hyn o bryd.	Dros y flwyddyn sydd i ddod.
14	<p><i>Dylid ystyried gwiriadau cyflogaeth cyfnodol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer hon hefyd yn cyd-fynd ag Arweiniad 2011 y GIG ac Iechyd Cyhoeddus ynghylch Gwarchod Plant ac Oedolion Bregus mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol.</i></p>	Bydd yn cael ei wneud wrth newid rheolwyr a pherchnogion.	Chris Gash ar hyn o bryd	Dros y flwyddyn sydd i ddod

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p><i>Rhaid i wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers iddo gael ei roi, fod ar gael i ddeintyddion sy'n darparu triniaethau deintyddol preifat (yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008).</i></p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7 a 7.1]</p>	Wedi'i wneud	Chris Gash	Wedi'i wneud
14	<p><i>Dylid cymryd camau ychwanegol i sicrhau bod aelodau staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, darparu cynlluniau datblygu personol ac arfarniadau staff blynyddol, cyfarfodydd tîm rheolaidd a chyfleoedd i gydweithio.</i></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 7.1]</p>	Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd ar waith, ond fe'u cynhelir yn fwy aml. Bydd arfarniadau blynyddol yn dod yn fwy cynhwysfawr	Donna Evans.	6/12 i 1 flwyddyn yn achos arfarniadau newydd, gan y byddai'n fwy defnyddiol gyda'r rheolwyr newydd.
15	<p><i>Byddai'n fuddiol pe bai'r practis yn ystyried system ar gyfer monitro cyfleoedd o ran dysgu a hyfforddiant.</i></p>	Llunio un cofnod o hyfforddiant staff a'i ddefnyddio i fonitro hyfforddiant a chyfleoedd	Donna Evans ar hyn o bryd (rheolwr dros dro) tan y newid o ran y	

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>Dylid cynorthwyo staff i gyflawni eu holl botensial.</i> [Safon Iechyd a Gofal 7.1]		berchnogaeth	
15	<i>Dylid ystyried ar frys reolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis, er mwyn sicrhau:</i> <ul style="list-style-type: none"> <i>Cyhyd ag y bo modd, y cydymffurfir â rheoliadau a safonau.</i> <i>Bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf i hyrwyddo proses gynaliadwy o ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.</i> [Safon Iechyd a Gofal – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd]	Mae rheolwr interim wedi'i benodi ac mae yn ei swydd. Disgwylir y bydd tîm rheoli newydd yn dod yn gyfrifol am y practis cyn gynted ag sy'n ymarferol.	Chris Gash Mae'r berchnogaeth ar y practis yn newid ac mae'r ymarferydd arweiniol a'r rheolwr yn cael eu newid cyn gynted ag y bo modd	Yn awr Cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, ond cyn pen 6 mis
Ansawdd yr Amgylchedd				
16	<i>Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd i waredu â chynhyrchion a oedd wedi dyddio ac eitemau nad oedd eu hangen mwyach er mwyn sicrhau bod cymaint o le ag y bo modd ar gyfer storio yn</i>	Yn parhau	Kat Edwards	Wedi'i gwblhau gan mwyaf, ond 9 mis.

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gyffredinol yn y practis. [Safon Iechyd a Gofal 2.1]			
16	Dylid ystyried pa addasiadau rhesymol eraill y gellid eu gwneud i wella'r mynediad i'r safle ar gyfer cadeiriau olwyn. [Safon Iechyd a Gofal 2.1]	I'w benderfynu arno gan y perchennog newydd, oherwydd rhagwelir newidiadau helaeth	Y perchennog newydd	Cyn pen blwyddyn.
17	Rhaid i'r gweithdrefnau glanhau gael eu hadolygu ar frys a dylid sicrhau bod darlun cliriach o ran cyfrifoldebau aelodau staff. Yn y cyswllt hwn, dylai copi o'r gweithdrefnau a'r rhestrau gwirio ynghylch glanhau fod yn hygyrch neu ar gael i staff. Dylai pob ardal ar y safle gael ei glanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau. Byddem yn argymhell bod system yn cael ei datblygu i fonitro safon y glendid a'i chynnal. [Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.4]	Mae system, ac amserlen lanhau sydd wedi'i seilio ar fodel Cymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi'i gweithredu a'i gwirio gan y tîm croes-heintio a llywodraethu clinigol lleol. Mae staff wedi'u hailhyfforddi ac mae cofnodion glanhau'n cael eu cadw. Mae cyfrifoldebau clir wedi'u dyrannu.	Donna Evans	Wedi'i wneud

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):**Chris Gash**.....

Teitl:

Dyddiad:**24 Awst 2015**.....